Cardiff
Caerdydd

Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023

Adroddiad Blynyddol 2018/19

Cynnwys

Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Caerdydd Amcanion Lles

1. Prifddinas sy'n Gweithio i Gymru 7
2. Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn 13
3. Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymusol 19
4. Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant 25
5. Cefnogi pobl allan o dlodi 31
6. Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn 37
7. Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus 43

"Gyda'n gilydd gallwn wneud Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo i'n holl breswylwyr"

Rhagair

I wynebu heriau heddiw ac yfory, mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus addasu ac ymateb fel un.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cynnig fforwm i hyn allu digwydd - i bartneriaid yn y sector cyhoeddus gydweithio i yrru twf economaidd yn ei flaen ar gyfer pawb, i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac anghydraddoldeb ac i reoli'r galw am wasanaethau ac effaith newid hinsawdd mewn modd cadarn a chynaliadwy.

Ym mis Mai 2018, nododd Cynllun Llesiant Caerdydd 2018-2023 y camau roeddem am eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Wedi blwyddyn mae'r BGC wedi arwain y ffordd wrth ymateb i rai o'r problemau allweddol sy'n wynebu'r ddinas – boed hynny'n ymateb i Brexit, yn dadlau dros y Cyflog Byw, symud tuag at ddulliau teithio llesol a datblygu ymagwedd integredig ar gynllunio cymunedau newydd.

Mae'r ffocws hefyd wedi bod ar lais y plentyn gyda lansiad y Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant a'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd newydd sy'n sicrhau fod plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth iawn, yn y modd iawn ar yr adeg iawn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys llawer mwy o enghreifftiau o'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud eleni ac mae'n amlwg fod y BGC eisoes wedi gwneud camau breision tuag at gyflawni ei Gynllun Llesiant a gwneud Caerdydd yn ddinas fwy gwyrdd, mwy teg a mwy llewyrchus.

Huw Thomas
Cadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Arweinydd Cyngor Caerdydd

> "Ateb heriau heddiw ac yfory"

Cyflwyniad

Ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol BGC Caerdydd

Mae'r adroddiad blynyddol hwn, yn amlinellu'r gwaith y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf i gyflawni ei Gynllun Llesiant ac mae'n rhoi'r diweddaraf ar sut mae'r ddinas yn perfformio yn erbyn dangosyddion canlyniad y cynllun.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi 50 o ddangosyddion i fesur perfformiad y ddinas. Mae Caerdydd yn 2019 yn cynnig llwyfan rhyngweithiol ar gyfer cymharu perfformiad yn erbyn Dinasoedd Craidd eraill y DU ac Awdurdodau Lleol eraill Cymru.

Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC Caerdydd) yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd, gan gynnwys y rhai hynny o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy gryfhau gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

Beth yw Cynllun Lles?

Mae'r Cynllun Llesiant 2018-2023 yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a thu hwnt. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wirioneddol angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Llesiant fel dogfen ategol at gynlluniau strategol bob aelod o'r BGC (gweler Atodiad 1), gan ganolbwyntio ar ddarparu 'mantais gydweithredol' mewn meysydd gwahanol o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n trawstorri pob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Lles, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi nodi'n bwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Ymrwymiadau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yw:

1. Prifddinas sy'n gweithio dros gymru
2. Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn
3. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
4. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
5. Cefnogi pobl allan o dlodi
6. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Sut caiff y Cynllun Llesiant ei gyflawni?

Mae BGC Caerdydd wedi rhoi sawl rhaglen waith ar waith er mwyn cyflawni yn y meysydd hynny lle mae angen gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau gwelliant sylfaenol. Gellir gweld fframwaith cyflawni'r bartneriaeth, a gytunwyd gan y BGC fis Mai 2018, yn Atodiad A.

Amcan Lles 1

Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

Cyflwyniad

Caerdydd yw prifddinas economaidd, wleidyddol a diwylliannol Cymru. Yn ogystal â chwarae rôl allweddol o ran creu swyddi a denu buddsoddiad i Gymru, mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddydau Cymru, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas Rhanbarth ehangach.

Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus. Wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn gweithio ynghyd i sicrhau bod Caerdydd yn parhau i ddenu a darparu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr, twristiaid, buddsoddiad, busnesau a myfyrwyr i Gymru ac i sicrhau bod Caerdydd yn cael ei hystyried fel prifddinas o arwyddocâd rhyngwladol mewn economi fyd-eang ôl-Brexit.



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio		Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
Cyfradd diweithdra		6.1 %	5.2 %	
GYG y pen		£29,723	£30,629	
Incwm Gwario Gros Aelwyd y pen		£16,237	£16,558	
Swyddi cyflogeion â chyfradd tâl yr awr yn is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol		20.7 %	21.5 %	
Poblogaeth (16-64) sydd wedi cymhwyso hyd at NVQ4+		47.8 %	46.8 %	
% a fu i unrhyw Ddigwyddiad Celfyddydol yng Nghymru*		66 %	79 %	
% a fu i unrhyw leoliadau hanesyddol yng Nghymru*		66 %	71 %	
% a fu i amgueddfa yng Nghymru*		54 %	58 %	
% a fynychodd o leiaf un Gweithgaredd Celfyddydol yn y 12 mis diwethaf	Mwyaf difreintiedig	80.3 %	85.7 %	
	Nesaf at y mwyaf difreintiedig	88.0 %	92.6 %	
	Canol	92.2 %	92.6 %	
	Nesaf at y lleiaf difreintiedig	94.1 %	94.5 %	
	Lleiaf difreintiedig	93.6 %	94.9 %	
% Oedolion sy'n Siarad Cymraeg		9 %	9.6 %	

*diffiniad o fesuriad wedi ei newid rhwng y blynyddoedd

Trosolwg o waith BGC yn 2018-19

Mae economi Caerdydd yn parhau i dyfu, gan greu swyddi a denu buddsoddiadau. Yn ystod 2018/19 cyfrannodd BGC Caerdydd at ddatblygu **strategaeth economaidd newydd** y ddinas – 'Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell' ac at ddatblygiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Er bod economi'r ddinas yn tyfu, mae nifer y swyddi sydd â chyfradd tâl yn is na'r cyflog byw yn uchel ac yn tyfu. Mae aelodau'r BGC felly wedi ategu eu hymrwymiad i **gael eu hachredu yn gyflogwyr Cyflog Byw**, gan weithredu i eirioli er mwyn annog mwy o gyflogwyr 'angor' y ddinas i gydnabod buddion y Cyflog Byw Gwirioneddol a chefnogi cynnig y ddinas i ddod yn **Ddinas Cyflog Byw y DU erbyn 2020.**

Mae effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau'n broblem strategol sy'n wynebu economi, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd. Yng ngwledydd Prydain, Caerdydd yw un o'r dinasoedd sydd fwyaf economaidd agored i beryglon y DU yn gadael marchnad sengl Ewrop, gyda 61 % o allforion Caerdydd yn mynd i wledydd yn yr UE. Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit hefyd yn peryglu cydlyniant cymunedol, er bod troseddau casineb a gofnodir yn parhau'n sefydlog o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd posibl o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau a gyda grwpiau asgell dde ac asgell dde eithafol yn risg sy'n dod i'r wyneb, yn enwedig pe ceid sefyllfa Brexit 'heb fargen' neu ail refferendwm.

Mae BGC Caerdydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn ymateb y ddinas i **Brexit**. Mae adroddiad BGC Caerdydd 'Brexit – Goblygiadau i Gaerdydd' ar oblygiadau Brexit i'r economi a gwasanaethau cyhoeddus wedi arwain y ffordd o ran sicrhau dealltwriaeth ac ymateb cydlynol i'r risgiau sy'n codi yn sgil y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Gan adeiladu ar hyn, gyda therfyn amser Brexit cychwynnol ar 29 Mawrth 2019 yn dynesu'n fuan, fe sefydlodd y BGC Grŵp Ymbaratoi Brexit a fu'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod y paratoadau sefydliadol a'r cymorth a oedd ar gael i staff, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr. Mae'r dudalen gwe 'Caerdydd a Brexit' yn cyfeirio busnesau, preswylwyr yr UE ac unigolion at ganllawiau a chymorth.

Mae'r ddinas yn gweithio tuag at ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael **1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog** a lansiwyd yn 2017 wedi cael ei chanmol fel strategaeth awdurdod lleol enghreifftiol.mae partneriaid wedi cydweithio i gyhoeddi cynllun gweithredu newydd i'r ddinas.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Cryfhau rôl Caerdydd fel prifddinas economaidd, ddiwylliannol Cymru, yn cefnogi datblygiad y BrifddinasRanbarth, a sicrhau bod y Fargen Ddinesig a Metro Caerdydd yn cyflawni ar gyfer pobl Caerdydd a Chymru.	**Ystyriwyd Papur Gwyn Economaidd Cyngor Caerdydd, 'Creu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell'** gan Fwrdd Cyflawni BGC Caerdydd. Derbyniodd y BGC ddiweddariad ar y Fargen Ddinesig ym mis Mawrth 2018 ac ystyriwyd dewisiadau ar gyfer Metro Caerdydd.
Ceisio sicrhau bod gan **Gaerdydd y cyllid a'r pwerau cyllidol sydd eu hangen arni i arwain economi Cymru a darparu seilwaith prifddinas** a gwasanaethau ar ran pobl Caerdydd, y Brifddinas-Ranbarth a Chymru.	Mae grŵp gorchwyl a gorffen, dan arweiniad Heddlu De Cymru, wedi ei sefydlu i **adolygu'r pwysau ariannol a grëwyd gan raglen ddigwyddiadau mawr Caerdydd** ac i gynnig dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch cyllido/cyllido cynaliadwy. Bydd hwn yn adrodd yn 2019 a bwydo i strategaeth Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ac i adolygiad ar Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.
Deall effaith **Brexit** ar economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Caerdydd a datblygu ymateb y ddinas, gan gynnwys siâp unrhyw raglenni olynwyr ar gyfer ffrydiau cyllid Ewropeaidd yng Nghymru.	Sefydlwyd **grŵp Parodrwydd Brexit** i gydlynu ymateb ar draws y sector cyhoeddus yn y cyfnod yn arwain at y dyddiad terfyn ar 29 Mawrth 2019. Cyhoeddodd y BGC ddatganiad yn pwysleisio pa mor agored yw Caerdydd a'r croeso sydd i'r holl breswylwyr. Mae'r dudalen gwe 'Caerdydd a Brexit' yn cyfeirio busnesau, preswylwyr yr UE ac unigolion at ganllawiau a chymorth.
Parhau i gynnal **darparu digwyddiadau mawr** yn y ddinas, adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat.	Cyfrannodd aelodau'r BGC dystiolaeth at adroddiad **Ymchwiliad Craffu Gorchwyl a Gorffen 'Digwyddiadau yng Nghaerdydd' 2019-20.** Fel y nodwyd uchod, mae grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio ar hyn o bryd ar adolygiad o bwysau ariannol a **dewisiadau cyllido ar gyfer digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd.**
Ceisio **dyblygu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050** trwy gefnogi darparu Strategaethau Caerdydd Ddwyieithog.	Adolygwyd **Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog** yn gadarnhaol gan arbenigwr annibynnol yn 2018, gyda **Chomisiynydd y Gymraeg hefyd yn cymeradwyo'r dull o weithio mewn partneriaeth** i gefnogi'r Gymraeg. Mae cynllun gweithredu bellach wedi ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan weithgor Caerdydd Ddwyieithog.

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Bydd sicrhau ymateb ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i'r heriau sy'n codi yn sgil **Brexit.**
Bydd y BGC yn cyfrannu at **strategaeth Dwristiaeth a Digwyddiadau Mawr newydd** ar gyfer Caerdydd, gan gynnwys archwilio dewisiadau i gyllido'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus lleol y sector pwysig hwn o economi'r ddinas.
Bydd y BGC yn parhau i gefnogi cyflawni **cynllun gweithredu Caerdydd Ddwyieithog.**

Caerdydd
Ddwyieithog

Bilingual
Cardiff

BUS

Amcan Lles 2

Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

Cyflwyniad

Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain, a Chaerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Mae dinasoedd llwyddiannus yn cynnwys y rheiny y mae pobl eisiau byw ynddynt a chroesewir y twf hwn ac mae'n arwydd o gryfder ar gyfer y ddinas. Fodd bynnag, bydd y twf hwn yn cyflwyno'i heriau hefyd, yn rhoi pwysau ar seilwaith ffisegol y ddinas, cydlyniad cymunedol, ei hamgylchedd naturiol a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd rheoli effeithiau'r twf hwn o ran poblogaeth a'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr i Gaerdydd



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio	Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
Allyriadau CO2 y pen (t)	5.0	4.6	
% teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gynaliadwy	45.8 %	48.1 %	
Cyfartaledd crynodiad NO2 mewn lleoliadau preswyl	21	17	
Parciau achrededig Baner Werdd	12	13	
Eiddo a gofrestrwyd ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru	8,480	8,204	
% y gwastraff trefol a gaiff ei ailddefnyddio/ailgylchu/ gompostio	58.1 %	58.3 %	

Trosolwg o waith BGC yn 2018-19

Mae'r BGC wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gysylltiedig â nifer o gamau yn yr Amcan Llesiant.

Yr amlycaf yw gwaith Cyngor Caerdydd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar ansawdd **aer a theithio llesol.** Er mwyn gwella ansawdd yr aer mae'r BGC wedi goruchwylio ystyried nifer o gamau lliniarol i fynd i'r afael â llygredd aer a chynyddu teithio llesol mewn ardaloedd allweddol yng nghanol y ddinas. O'r trafodaethau hyn ac mewn ymateb i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn 2017, 'Symud ymlaen: Teithio iach i bawb', fe ddatblygodd grŵp gorchwyl a gorffen o dan arweiniad Dr Tom Porter, Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd, Siart Teithio Iach Staff Caerdydd (SIartr Teithio'n Iach) . Wedi ei gymeradwyo gan y BGC ym mis Ebrill 2019, cytunodd ei aelodau a nifer o sefydliadau eraill i gefnogi staff i wneud dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy gan bennu targedau 3 blynedd. Ar y cyd mae dros 33,000 o gyflogeion gan y sefydliadau hyn.

Gan gydnabod bod y BGC yn arwain ar fater hanfodol i Gaerdydd, mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cynhyrchu fideo yn amlinellu pwysigrwydd y Siartr a'i buddion. Wrth symud ymlaen gobeithir y bydd y siartr yn cael ei mabwysiadu gan sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector ac mewn prifysgolion ac awdurdodau lleol cyffiniol.

Roedd trafnidiaeth hefyd yn thema bwysig yn y gweithdy BGC a gynhaliwyd ym mis Medi 2018 am fabwysiadu agwedd integredig at **gynllunio cymunedau newydd** yng Nghaerdydd. Gyda chyfranogwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus, defnyddiwyd datblygiad Plasdŵr fel astudiaeth achos. Cytunwyd bod ymagwedd integredig tuag at gynllunio yn cael ei mabwysiadu, ond bod angen mwy o waith ar gynllunio integredig a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau newydd hyn, gydag ymagwedd Hyb Cymunedol a Llesiant y ddinas yn fodel arfer gorau i allu adeiladu arno.

Yn dilyn **Storm Emma** ym mis Mawrth 2018 – neu 'Fwystfil y Dwyrain' fel y'i galwyd – a gynhyrchodd gwymp eira trwm a tharfu ar draws y ddinas, comisiynodd y BGC adolygiad o systemau ymateb, creodd hyn gyfres o argymhellion ar gyfer gwella ymateb y gwasanaethau cyhoeddus i ddigwyddiadau tywydd eithafol. Mewn ymateb i'r adolygiad hwn mae ymagwedd bartneriaeth newydd wedi ei sefydlu – yn arbennig i allu cyrchu cerbydau gyriant 4 x 4.

Ymwelodd aelodau'r BGC â'r project partneriaeth **Grangetown Werddach** sydd wedi ennill gwobrau rhwng Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, defnyddiwyd y technegau draenio cynaliadwy diweddaraf (SDCau) i lanhau a dargyfeirio dŵr glaw yn uniongyrchol i mewn i Afon Taf yn hytrach na'i bwmpio allan i'r môr. Mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision, gan gynnwys gwell gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd, defnyddio llai o ynni a gwell seilwaith gwyrdd gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i breswylwyr.

Healthy Travel Employer

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Mabwysiadu dull **integredig o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus** yng nghymunedau newydd y ddinas.	Ym mis Medi 2018 cynhaliwyd gweithdy i bartneriaid a oedd yn cwmpasu'r gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ystyried yr ymagwedd at uwch-gynllunio cymunedau newydd, gan adrodd yn ôl am y canlyniadau i'r BGC.
Ceisio sicrhau bod **50% o'r holl siwrneiau yng Nghaerdydd drwy ddulliau teithio cynaliadwy** gan gefnogi'r broses o ddatblygu a darparu Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd. **Cymryd ymateb dinas eang i lygredd aer** trwy gefnogi ar ddatblygu a darparu Strategaeth Aer Glân Caerdydd.	Ystyriodd y Bwrdd ansawdd aer a thrafnidiaeth ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, gan arwain at lofnodi a **lansio Siartr Teithio Iach i Staff** ym mis Ebrill 2019.
Sicrhau bod y ddinas yn barod am achosion o dywydd eithafol sy'n gysylltiedig â Newid yn yr Hinsawdd gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ac annog newid ymddygiad ymhlith preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr â'r ddinas.	Mewn ymateb i Storm Emma ddaeth â'r eira trwm ym mis Mawrth 2018, comisiynodd y BGC **adolygiad o systemau ymateb mewn tywydd gwael.** Derbyniwyd yr argymhellion gan y BGC ym mis Tachwedd 2018 ac fe gytunodd partneriaid ar drefniadau newydd ar gyfer darparu cerbydau 4 x 4 a mynediad at gerbydau arbenigol.
Ceisio **lleihau'r ôl-troed carbon ar wasanaethau cyhoeddus** y ddinas drwy weithio i sicrhau bod yr holl adeiladu cyhoeddus yn rhai ynni a gwastraff effeithlon.	Mae partneriaid BGC yn **cydweithio i adolygu'r asedau presennol (adeiladau a thir) a dylunio manylebau gwasanaethau cyhoeddus** y dyfodol gan gynnwys lleihau ôl troed carbon y ddinas.
Archwilio'r posibiliad ar gyfer diosg buddsoddiadau cyhoeddus o gwmnïau tanwydd ffosil.	**Mae Pwyllgor Pensiynau Cyngor Caerdydd wedi ystyried Polisi Buddsoddi ar Newid Hinsawdd** mewn ymgynghoriad a chynghorwyr annibynnol y Gronfa Bensiwn a chronfeydd pensiynau awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu polisi mewn ymateb i sylwadau aelodau Pwyllgor Bwrdd. Bydd canlyniadau'r gwaith yma yn cael eu dwyn gerbron y BGC i'w hystyried yn 2019/20.

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Cyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad **Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Aer Glân Caerdydd** a gaiff ei lansio yn ystod hydref 2019.
Cyfrannu at ddatblygu **Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru** ar y cyd â'r ddyletswydd Adran 6 ar flaengynlluniau dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.
Edrych ar hyrwyddo gwasanaeth rhybudd o lifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r hybiau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus
Gwneud cynnydd tuag at y targedau a bennwyd yn y **Siarter Teithio Iach i Staff;** datblygu a lansio fersiynau o'r Siarter ar gyfer busnesau a'r trydydd sector, gan annog arwyddo'r ddwy
Ystyried gweithio ar y cyd er mwyn sicrhau bod pob adeilad **cyhoeddus yn effeithiol o ran ynni a gwastraff.**
Bwrw trafodaethau yn eu blaenau i archwilio'r potensial ar gyfer **cael buddsoddiadau cyhoeddus gan gwmnïau tanwydd ffosil.**

Amcan Lles 3

Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus

Cyflwyniad

Mae cymunedau diogel, hyderus a grymusol wrth wraidd lles. Mae ganddynt rôl unigryw i'w chwarae pan ddaw i'r hyn sydd bwysicaf i ni - ein hamgylchedd, diogelwch, lles, iechyd a hapusrwydd. Hefyd, mae cymunedau'n aml yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau, brwdfrydedd, creadigrwydd a dealltwriaeth o'r ardal leol nad oes gan ddarparwyr gwasanaeth mohono. Mae sicrhau bod cymunedau lleol yn ddiogel a grymusol felly'n rhan allweddol o ddinas lwyddiannus.



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio	Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
% sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gyrru ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch	53 %	56 %	
% sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	28 %	21 %	
% sy'n cytuno bod pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	73 %	71 %	
% y troseddwyr sydd yn ail-droseddu	37.3 %	38.4 %	
% cleientiaid y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd wedi nodi gwelliant yn ansawdd eu bywydau*	77.7 %	77.1 %	
% oedolion (16+ oed) sy'n gwirfoddoli	30 %	28 %	

*Data dwy flynedd ar gael ers cyhoeddi Caerdydd yn 2018. Cymharwyd y 2 flynedd ddiweddaraf

> "Mae cymunedau diogel, hyderus a grymusol wrth wraidd lles"

Trosolwg o waith BGC yn 2018-19

Mae rhaglen lwyddiannus Caerdydd o ddatblygu hybiau cymunedol a gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau, gyda Hyb Llaneirwg wedi ei gwblhau yn ystod haf 2018, gan gorlannu'r ystod cyfan o wasanaethau cyhoeddus o dan un to. Cytunwyd hefyd ar gynlluniau ar gyfer lleoliad hyb gwasanaethau cyhoeddus newydd – gan gynnwys caffi, llyfrgell, canolfan wybodaeth a chanolfan ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Ym mis Hydref 2018, cymeradwywyd ymagwedd partneriaeth newydd tuag at **Ddiogelwch Cymunedol** gan BGC Caerdydd, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Diogelwch Cymunedol newydd i Gaerdydd, wedi ei gadeirio ar y cyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Alun Michael a'r Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne. Mae'r grŵp, sydd yn adrodd yn ôl wrth y BGC, wedi cytuno ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng aelodau BGC ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Canol y Ddinas a Chysgwyr Stryd
- Llinellau Cyffuriau a cham fanteisio ar rai sy'n agored i niwed
- Prevent a CONTEST
- Gweithio ar sail Ardal

Bydd gweithio ar bob un o'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar adeiladu cadernid – helpu cymunedau i wrthsefyll ac adfer eu hunain o sefyllfaoedd adfydus – a mynd i'r afael â bregusrwydd – nodi'r rheiny mewn cymuned sydd yn destun niwed neu'n debygol o fod yn agored i niwed a chymryd camau ar y cyfle cyntaf posib.

Yn 2018 lansiwyd gwasanaeth VAWDASV Caerdydd (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac mae wedi ei ehangu i gynnwys gallu cefnogi plant a phobl ifanc. Datblygwyd 'Mae yn ein dwylo ni' gyda phartneriaid a rhai sydd wedi goroesi trais a chamdriniaeth. Wrth galon y gwasanaeth hwn y mae'r gweithio mewn partneriaeth i herio agweddau ac ymddygiadau a allai arwain at VAWSDAV, ateb anghenion y dioddefwyr ac archwilio dulliau newydd o weithio.

Er mwyn datblygu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a gaiff ei gomisiynu ar y cyd mae Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro wrthi'n cryfhau ei llywodraethiant drwy'r BGC ac yn datblygu dull cydlynol o hysbysu system gwasanaethau camddefnyddio sylweddau newydd. Bydd yn canolbwyntio ar leihau niwed, gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a sicrhau gwasanaethau effeithiol sy'n werth yr arian.

Ym mis Rhagfyr 2017, lansiwyd Gwirfoddoli Caerdydd, gan gyfeirio preswylwyr at yr holl gyfleon, sefydliadau a chymorth sydd ar gael ar draws y ddinas. Mae gwirfoddoli wedi ei ehangu i'r holl Hybiau, llyfrgelloedd a lleoliadau Addysg Oedolion gyda bron i 150 o wirfoddolwyr ar draws y timau. Mae arfer gorau yn cael ei rannu er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli lletach.

Datblygwyd Strategaeth **Economi Gyda'r Nos** Caerdydd mewn partneriaeth gyda'r Ardal Gwella Busnes a'i gytuno gan y BGC yn 2017/18. I mewn Ionawr 2019 rhoddwyd statws Baner borffor i Gaerdydd er mwyn cydnabod ansawdd, diogelwch ac amrywiaeth ei economi gyda'r nos.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Buddsoddi mewn a **chynnwys cymunedau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector lleol, integredig** mewn hybiau cymunedol a lles.	Mae'r **Hyb newydd yn Llaneirwg** a gwblhawyd yn haf 2018 yn cynnig ystod lawn o wasanaethau'r cyngor a gwasanaethau partneriaid i'r gymuned leol. **Mae cynlluniau wedi eu cytuno ar gyfer addasu capel Ysbyty Brenhinol Caerdydd** yn llyfrgell/caffi/canolfan wybodaeth a defnyddio gofod gwag yn YBC ar gyfer siop un stop gwasanaethau cam-drin domestig.
Rhoi llais cryfach i bobl wrth siapio gwasanaethau cyhoeddus drwy ddatblygu a **chyflenwi Cynlluniau Datblygu a Chyfranogiad Cymunedol wedi'u cyd-greu.**	**Swyddogion cynhwysiant wedi eu penodi i weithio mewn hybiau Cymunedol**, a byddant yn ffurfio rhan bwysig o'r ymagwedd newydd tuag at weithio lleol, gan gynnwys: • Cydlynu cyfleoedd ymgysylltu • Adeiladu gwybodaeth a rhwydweithiau lleol • Helpu i ddatblygu cyfleoedd "dinasyddion actif" • Cysylltu â gwasanaethau eraill sydd wedi eu lleoli yn y gymuned
Hyrwyddo **gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol,** gan gynnwys datblygu porth gwirfoddoli ar gyfer y ddinas.	Mae Gwirfoddoli Caerdydd, wedi ei lansio gan gyfeirio preswylwyr Caerdydd at yr holl gyfleoedd, sefydliadau a chymorth sydd ar gael i alluogi gwirfoddoli ar draws y ddinas.
Amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan fabwysiadu dulliau **integredig i ymdrin â masnachu pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin domestig.**	**Dechreuodd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd weithredu** yn 2018-19. Mae'r gwasanaeth wedi ei ehangu i gynnwys gallu cefnogi plant a phobl ifanc. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gwasanaeth i gefnogi dioddefwyr cam-drin sy'n ddynion. Mae proses newydd wedi ei gytuno, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar fater Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM). Mae Barnardos wedi eu comisiynu i roi gwasanaeth i bobl ifanc sydd yn dangos arwyddion o Ymddygiad Rhywiol Peryglus.
Ymdrin â radicaleiddio yn ein cymunedau drwy ddatblygu ymddiriedaeth a hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol.	Bydd sefydlu a **datblygu tîm Cydlyniant ac Ymgysylltiad Cymunedol** newydd yng Nghyngor Caerdydd, Bydd ymgysylltu cymunedol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig â grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, yn flaenoriaeth ar gyfer 2019/20. Mae adnoddau hyfforddi i ysgolion wedi eu rhoi sy'n ymwneud â gwahaniaethu, wedi eu alinio â'r gwaith ar Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant.

Ymrwymiadau	Diweddariad
Lleihau troseddu a gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer y grŵp 18-25 oed drwy ddatblygu dull integredig, lleol i reoli troseddwyr.	**Gweithiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI)** i fwydo ymatebion wedi eu teilwra'n unigol i'r broses reoli achosion. Mae'r gwaith hwn wedi helpu barnwyr i ddeall ffyrdd newydd o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae cynllun peilot hefyd wedi ei ddatblygu i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt yr ysgol ac sydd mewn peryg o lithro i'r System Cyfiawnder Troseddol.
Lleihau'r defnydd o gyffuriau a chamddefnyddio sylweddau a lefelau aildroseddu, a gwella lefelau adfer parhaus, hirdymor, drwy gyflenwi rhwydwaith o **wasanaethau cymorth adfer a chamddefnyddio sylweddau wedi'u comisiynu ar y cyd.**	Mae ail-gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r ddinas yn cael ei arwain gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, gan adrodd yn ôl i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar ddiogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd wedi **ymateb i argymhellion a wnaed gan ymchwiliad Craffu Cyngor Caerdydd sef 'Atal Pobl Ifanc Rhag Bod yn Rhan o Ddelio Cyffuriau',** ac mae wedi comisiynu dadansoddiad pellach ar sbwriel yn deillio o gyffuriau yng Nghaerdydd yn rhan o adolygiad ehangach o'r gwasanaethau a ddarperir i grwpiau agored i niwed yn ne'r ddinas.
Sicrhau bod **newydd-ddyfodiaid o'r DU a thramor yn cael eu croesawu ac yn gallu adeiladu bywydau newydd yng Nghaerdydd**, gan gynnwys darparu'r project 'Dinasoedd Cynhwysol'.	Mae **strategaeth a chynllun gweithredu Dinasoedd Cynhwysol** wedi eu datblygu ac mae i gael eu lansio mewn cynhadledd ym mis Hydref 2019. Mae tîm Diogelu Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth gydag eglwysi lleol, mosgiau a phartneriaid er mwyn cynghori ar bolisïau diogelu sydd ynghlwm â chynlluniau Noddi Cymunedol i ffoaduriaid.
Darparu economi nos ddiogel a bywiog, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwella Busnes.	**Rhoddwyd statws Baner Borffor i Gaerdydd ym mis Ionawr 2019** (Mae'r Faner Borffor yn galluogi'r cyhoedd i adnabod pa drefi a chanol dinasoedd sy'n cynnig noson allan dda, amrywiol a diogel).

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Parhau i ddatblygu **hybiau cymunedol a llesiant** y ddinas.
Cyhoeddi **strategaeth a chynllun gweithredu Dinasoedd Cynhwysol** a chynnal cynhadledd (Hydref 2019), gyda phwyslais ar sicrhau y caiff Caerdydd ei gweld fel dinas agored, groesawgar a goddefgar.
Cynhelir cynhadledd ar draws y gwasanaethau **cyhoeddus ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghaerdydd ym** mis Medi 2019.
Cytuno ar drefniadau llywodraethiant, blaenoriaethau ariannu a **model gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth cam-drin sylweddau a gaiff ei gomisiynu ar y cyd** er mwyn helpu i leihau lefelau cam-drin cyffuriau a sylweddau, lefelau aildroseddu a gwella lefelau cyfraddau adferiad hir dymor.

Amcan Lles 4

Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

Cyflwyniad

Mae Caerdydd eisoes yn lle da i'w phlant a'i phobl ifanc dyfu i fyny ynddo, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn ei chynnig megis ystod eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Fodd bynnag mae'r anghydraddoldeb sy'n amlwg yng Nghaerdydd yn gallu cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a phlant sydd dan anfantais – p'un a thrwy anabledd, tlodi, amgylchiadau teulu, salwch, esgeulustod neu gamdriniaeth – bydd angen help a chymorth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, ac o fewn eu cymunedau.



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio		Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
% y plant o deuluoedd incwm isel		23.1 %	23.7 %	
% y plant 4-5 oed sydd yn iach eu pwysau		76.1 %	77.6 %	
% y plant a gafodd MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed		83.0 %	88.1 %	
Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion		10.9 (Cymru)	-	
Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Cyrraedd y Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd	% yn cyrraedd	89.4 %	-	
	Bwlch Prydau Ysgol Am Ddim (FSM)	13.0	-	
Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn Cyrraedd y Lefel Trothwy 2+ gan gynnwys Saesneg/ Cymraeg a Mathemateg	% yn cyrraedd	58.5 %	60.4 %	
	Bwlch Prydau Ysgol Am Ddim (FSM)	32.8	30.5	
% y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Blwyddyn 11	1.6 %	1.7 %	
	Blwyddyn 13	2.4 %	2.0 %	
% y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol		49.6 %	50.2 %	

Trosolwg o waith y BGC yn 2018-19

Gwnaed cynnydd da o ran yr Amcan Lles hwn, gyda rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant y BGC yn cyflawni nifer o brojectau amlasiantaeth i wella bywydau plant y ddinas.

Mae'r strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant a lansiwyd gan BGC Caerdydd ar Ddiwrnod Plant y Byd (20 Tachwedd 2019), yn gosod hawliau a lleisiau plant a phobl ifanc wrth wraidd polisïau, strategaethau a gwasanaethau Caerdydd; gan eu cynnwys nhw yn y broses benderfynu a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n lleihau eu cyfleoedd bywyd. Mae'r strategaeth yn gam sylweddol tuag at nod Caerdydd o sicrhau cydnabyddiaeth ryngwladol fel **un o Ddinasoedd sy'n Dda i Blant UNICEF cyntaf y DG.** Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynllun cyflawni sy'n nodi'r camau gweithredu allweddol a'r swyddogion cyflawni arweiniol ar draws y sefydliadau partner.

Yn y fideo canlynol, mae Cadeirydd y Bwrdd Cynghori ar Blant a Phobl Ifanc, Rose Melhuish, a'r Aelod Bwrdd, Naz Ismail, yn disgrifio'r newid y gallai ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant Unicef ei wneud i'r ddinas.

Eleni datblygwyd gwasanaeth **Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd** sy'n gweithio ar draws Tai, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y cymorth angenrheidiol, yn y modd cywir ac ar yr adeg iawn. Mae'n cyfuno amrywiaeth o wybodaeth , cyngor a gwasanaethau cymorth sefydledig a newydd i deuluoedd, pobl ifanc a phlant yng Nghaerdydd a hynny trwy un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeirio Cymorth Cynnar. Mae hwn yn wasanaeth newydd sbon sy'n parhau i ddatblygu. Mae camau nesaf y gwasanaeth yn cynnwys sefydlu cynllun peilot i ffurflen atgyfeirio gyda phartneriaid allweddol yn Addysg, Iechyd a Thai, datblygu gwefan gyda chymorth rhieni a phobl ifanc, ac archwilio cysylltiadau â'r Hyb Diogelu Aml-Asiantaeth.

Mae BGC Caerdydd wedi parhau â'i gefnogaeth i **Addewid Caerdydd**, menter sy'n ceisio sicrhau bod pob person ifanc yn cymryd rhan ac yn gwneud cynnydd ym myd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl gadael ysgol. Mae 181 o sefydliadau yn cefnogi **Addewid Caerdydd** o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rhoddodd wythnos 'Agor eich Llygaid' gyfle i ysgolion ymgysylltu â busnesau a sefydliadau o ran cyfleodd a llwybrau gyrfa.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Gosod llais a phrofiad pobl ifanc wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd trwy fabwysiadu dull Hawliau Plant a **dod yn 'Ddinas sy'n Ystyriol o Blant' UNICEF.**	Lansiwyd **Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd** gan y BGC mewn digwyddiad Diwrnod Plant y Byd ym mis Tachwedd 2018. Roedd y digwyddiad hwn yn cyd-fynd â lansio Siartr Hawliau Plant BIP Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Ieuenctid Caerdydd a'r Fro. Caiff cynllun gweithredu ei lunio ar hyn o bryd.
Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, gan sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyfuno a bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, gan gynnwys: • Datblygu Pwynt Cyswllt Cymorth Cynnar • Comisiynu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf newydd • Datblygu dull cydgysylltiedig o ymateb i'r 1000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn	Mae'r gwaith i ddatblygu'r **model cyflawni newydd ar gyfer Cymorth i Deuluoedd yng Nghaerdydd** wedi mynd yn ei flaen yn ystod 2018/19. Mae'n cyfuno'r gwasanaethau presennol er mwyn creu 3 gwasanaeth teuluol newydd o dan adain y Cyngor. • Gwasanaeth Porth i Deuluoedd – y prif lwybr ar gyfer pob atgyfeiriad a chais am help. • Gwasanaeth Help i Deuluoedd – i ymateb yn gyflym i deuluoedd y mae angen ymyriad tymor byr arnynt. • Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd – a fydd yn gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu problemau mwy cymhleth neu ddwys. Bydd y Porth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Help i Deuluoedd ynghyd â thimau presennol Dechrau'n Deg, Gofal Plant a Rhianta yn ffurfio'r gwasanaeth Cymorth Cynnar a gaiff ei reoli gan Gyngor Caerdydd. Bydd tîm amlasiantaeth o'r Hybiau penodol yn ymgymryd ag ymyriadau a nodir ar gyfer pobl ifanc.
Datblygu **dulliau yn seiliedig ar leoli i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i blant a theuluoedd yng nghymunedau** mwyaf difreintiedig y ddinas trwy beilot 'Plant yn Gyntaf' yn Nhrelái a Chaerau.	Mae cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' wedi ei ymgorffori yn y gwaith o ddatblygu **model cyflawni newydd ar gyfer y gwasanaethau Help a Chymorth i Deuluoedd** uchod.
Datblygu dulliau arloesol i nodi'r rheiny sy'n agored i Brofiadau Plentyndod Negyddol, gan roi ymateb amlasiantaeth mewn lle i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.	Bydd dulliau arloesol o nodi'r rheiny mewn peryg o Brofiadau Plentyndod Niweidiol yn cael eu Cyflawni **drwy lunio'r Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant, y model Help a Chymorth i Deuluoedd a'r model Diogelwch Cymunedol.** Bydd asesiad risg yn cael eu cynnal ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu o ran yr atgyfeiriadau gan ddefnyddio eu cronfeydd data i nodi materion diogelu ac ymyriadau addas.
Gweithio gyda chymunedau ac ar draws partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i ymdrin â **Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.**	Mae Strategaeth Cam-fanteisio Caerdydd wedi ei diwygio i greu **Strategaeth Cam-fanteisio ar y cyd i Oedolion a Phlant** a bydd yn cael ei harwain gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Mae tîm **'Meddwl yn Ddiogel'** wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y plant hynny y mae angen ymyriad arbenigol Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB) arnynt yn derbyn y lefel iawn o gymorth.

Ymrwymiadau	Diweddariad
Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc drwy ddarparu dull **integredig i Gymorth Iechyd Emosiynol a Meddwl Plant a Phobl Ifanc.**	Trwy gyfrwng Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant, mae partneriaid wedi ymrwymo i "wella iechyd emosiynol a lles plant a phobl ifanc". Bydd hyn yn creu un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl, ynghyd a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn yn ogystal â datblygu sgiliau staff rheng flaen.
Cefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd trwy ddarparu **rhaglen Dyfodol Anableddau.**	Mae dau gynllun Cronfa Gofal Canolradd sydd wedi rhedeg drwy'r flwyddyn wedi eu hestyn tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, sef: • Ymbarél – dan adain y Fro ac yn cael ei gyflenwi gan Action For Children i gynnig ymyriadau dwys i rieni y mae anghenion dysgu ychwanegol arnynt a lle mae niwed sylweddol i'w plant. • Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd Rhianta Caerdydd a'r Fro – dan adain Caerdydd a'i gyflenwi gan Barnardo's ac sy'n cynnig cymorth i deuluoedd drwy gefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd y mae eu plant wedi derbyn diagnosis o ADHD. Mae sefydlu Grŵp Rhyngweithio Adolygu Pontio Rhanbarthol a Grŵp Llywio Pontio Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg wedi gwella cydweithio rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd.
Cefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd trwy ddarparu rhaglen Dyfodol Anableddau. Sicrhau bod pobl ifanc yn barod ar gyfer ac yn cael cyfleoedd i gael swydd yn y byd gwaith drwy ddarparu **'Addewid Caerdydd'** mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector.	Mae 181 o sefydliadau yn cefnogi Addewid Caerdydd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rhoddodd wythnos 'Agor eich Llygaid' gyfle i ysgolion ymgysylltu â busnesau a sefydliadau ynglŷn â chyfleodd a llwybrau gyrfa.

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Cyflawni'r **cynllun gweithredu Dinas sy'n Dda i Blant** a gwneud cynnydd tuag at achrediad UNICEF .
Mabwysiadu dull **integredig o ymateb i anghenion cymorth emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc** fel rhan o gyflawni Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd.
Gwreiddio'r model cyflenwi ataliol newydd ar gyfer **Cymorth i Deuluoedd** ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, ac ymgymryd ag ymchwil bellach i ganlyniadau o ran plant sy'n agored i niwed.
Cefnogi ysgolion i roi camau craidd ar waith sydd â'r nod o wella'r cynnig bwyd, bwyta bwyd a gweithgaredd corfforol er mwyn cyflawni blaenoriaethau adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, **Symud Mwy, Bwyta'n Iach.**

The
Yr hyb
The
Yr hyb

Amcan Lles 5

Cefnogi pobl i ddianc rhag tlodi

Cyflwyniad

Mae perfformiad cadarn Caerdydd ar draws amrywiaeth o ddangosyddion llesiant yn cuddio anghydraddoldebau wedi'u hen sefydlu ar draws y ddinas. Mae dros 60,000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn wir, petai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd, o Drelái yn y Gorllewin i Trowbridge yn y Dwyrain, yn cael ei ystyried yn un awdurdod lleol hwn fyddai'r tlotaf yng Nghymru o gryn dipyn.



Gall byw mewn tlodi roi cysgod hir dros fywydau pobl - mae disgwyliad oes a dangosyddion iechyd eraill yn is yn wardiau mwyaf difreintiedig Caerdydd, mae ansawdd aer yn waeth, mae llai o fynediad i fannau gwyrdd ac mae trosedd yn y ddinas i'w weld gan mwyaf yn yr ardaloedd hyn. Sut i sicrhau bod yr holl ddinasyddion yn elwa o dwf economaidd y brifddinas yw un o'r materion mwyaf cymhleth a heriol sy'n wynebu Caerdydd dros y blynyddoedd i ddod.

Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio		Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. o dan 60% o'r incwm canolig) fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (wedi costau tai)		16%	16%	
Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith hirdymor (h.y. dros 12 mis)		1,210	1,005	
Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod)	Dynion	-	61.2	
	Menywod	-	61.1	
Canran y babanod isel eu pwysau geni		5.3%	4.9%	
Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd		31.5%	31.7%	
Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos		24%	30.7%	
Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd		14%	16.2%	
Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i'r cyflog gros blynyddol canolig		6.58	6.74	
Cysgwyr stryd fesul 10,000 person		2.5	2.8	
Tlodi bwyd		-	-	
Tlodi tanwydd		23.81	-	

Trosolwg o waith y BGC yn 2018-19

Mae'r Bwrdd Twf Cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar dynnu'r rhwystrau i gyflogaeth a helpu pobl, yn enwedig y rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur, i mewn i waith o ansawdd da, wedi arwain at gyfres o brojectau dros y flwyddyn ddiwethaf ar ran BGC Caerdydd. Y pwysicaf o'r rhain yw integreiddio'r **gwasanaethau i mewn i waith.**

Yn y gorffennol, bu gwasanaethau cymorth cyflogaeth yng Nghaerdydd yn ddarniog, gyda meini prawf cymhwysedd cymhleth ac amrywiol. Parodd hyn ddyblygu ar y gwasanaethau a gâi eu cynnig, yn ogystal â bylchau yn y ddarpariaeth, gan wneud gwasanaethau yn ddiangen o gymhleth i'w cyrchu. Mae'r project i mewn i waith wedi datblygu **Gwasanaeth i Mewn i Waith** cwbl integredig a chynhwysfawr, a dechreuodd weithredu ar 1 Ebrill 2018, ac sydd wedi dwyn ynghyd amrywiaeth o wasanaethau a ffynonellau cyllid, gan gynnig **porth hawdd ei gyrchu ar gyfer gwasanaethau cymorth cyflogaeth** yng Nghaerdydd.

Mae'r BGC wedi ymrwymo i fod yn eiriolwyr dros Gaerdydd i **ddod yn ddinas Cyflog Byw**. Mae 93 o gyflogwyr bellach wedi eu hachredu trwy gyfrwng Cynllun Cymorth Achredu Cyflog Byw y Cyngor. Mae hyn tua 46 % o gyfanswm nifer y cyflogwyr achrededig yng Nghymru.

Gan gydnabod y bylchau mawr sy'n tyfu mewn canlyniadau iechyd ar draws y ddinas, fe gomisiynodd y BGC ymchwil i **anghydraddoldebau iechyd**. Roedd y gwaith hwn, a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a adroddwyd wrth Fwrdd Cyflenwi'r BGC ym mis Ebrill 2019, yn dangos graddfa'r anghydraddoldeb iechyd yng Nghaerdydd ymhellach.

Mae gwaith dadansoddi manwl pellach yn mynd rhagddo mewn perthynas â data/gwybodaeth ac ymyriadau presennol gyda golwg ar nodi'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth nifer o faterion sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd.

Mae gan ansawdd, argaeledd a fforddiadwyedd bwyd ran sylweddol i'w chwarae mewn ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd ac i gefnogi'r economi leol. Mae **Strategaeth Fwyd Caerdydd** wedi ei datblygu yn sgil astudiaeth a gomisiynwyd i edrych ar arfer gorau a deall safbwyntiau partneriaid. Mae oedi wedi bod ar cwblhau'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaeth gordewdra Llywodraeth Cymru, 'Pwysau Iach: Cymru Iach' a chaiff ei chyflwyno gerbron y BGC i'w ystyried yn nhymor yr Hydref 2019.

Fel pob dinas yng ngwledydd Prydain, mae Caerdydd wedi profi cynnydd yn nifer y bobl sy'n **ddigartref ac yn cysgu ar y stryd** dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda'r rhesymau sy'n arwain i bobl yn colli eu cartrefi yn rhai cymhleth ac amrywiol, prin - os o gwbl - mai mater tai yn unig ydyw. O ganlyniad, mae angen cydnabod bod her digartrefedd a chysgu ar y stryd yn mynd ymhell y tu hwnt i dai a bod angen ymateb cydlynol amlasiantaeth i ymdrin â hi. Mae gwaith amlasiantaeth agos wedi parhau i fynd rhagddo ar y mater hwn yn y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig ynghylch y mater a ddaeth i'r amlwg yn 2018/19 o ran defnyddio pebyll yng nghanol y ddinas.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Ceisio darparu mwy o swyddi â thâl gwell yng Nghaerdydd drwy weithredu fel eiriolwr ar gyfer y **fenter Cyflog Byw Gwirioneddol** ar draws cyflogwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac ystyried hyn wrth gomisiynu ac ariannu.	Mae mwyafrif aelodau BGC Caerdydd eisoes yn talu'r Cyflog Byw ac yn ystyried dod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig ffurfiol. Mae 93 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, sef tua 46 % o gyfanswm Cymru.
Cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan ddiwygio lles drwy ddarparu dull integredig, wedi'i ddarparu'n lleol mewn Hybiau Cymunedol a Lles.	Mae'r holl staff rheng flaen o fewn Hybiau Cymunedol a Lles wedi eu hyfforddi i nodi pryd bydd angen i deuluoedd hawlio Credyd Cynhwysol. **Mae canllawiau, cyngor a chymorth ar gael** yn yr holl Hybiau a lleoliadau allgymorth ar draws y ddinas.
Datblygu dull integredig i wasanaethau cyflogaeth yng Nghaerdydd, helpu pobl i ddod o hyd i waith, aros mewn gwaith a chynyddu yn y gwaith, gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a darparwyr hyfforddiant.	Mae gwasanaethau cyflogaeth ar draws y ddinas wedi eu hadolygu ac mae **porth sengl wedi ei sefydlu** i ymgymryd ag asesiadau cychwynnol ac i gyfarwyddo unigolion at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.
Sicrhau bod **rhaglenni atal tlodi blaenllaw Llywodraeth Cymru** (Cynlluniau Gadael Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl) wedi'u dylunio a'u darparu mewn ffordd gydlynol.	Mae gwerthusiad annibynnol wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru o'r Cynllun **Peilot Cyllido Hyblyg**. Bydd ymateb yn cael ei ddatblygu yn dilyn cyhoeddi adroddiad dros dro a fydd ar gael
Ceisio atal cysgu ar y strydoedd yn y ddinas a mynd i'r afael ag achosion o ddigartrefedd.	**Rhoddwyd ymagwedd amlasiantaeth gwell** ar waith i gefnogi'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yn 2018.
Ceisio cynyddu effaith gwasanaethau cyhoeddus fel cyflogwr o bwys wrth fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo arferion 'gweithio'n deg' drwy ddatblygu dulliau gweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus tuag at 'Gyfrifoldeb Cymdeithasol', 'Buddiannau Cymunedol' a 'Chyflogaeth Foesegol'.	**Cyflwynwyd Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Cyngor Caerdydd** i BGC Caerdydd ym mis Mehefin 2018. Yn dilyn hyn mae cyfarfodydd wedi eu cynnal er mwyn ceisio deall sut y gellid gweithredu hyn a'i fabwysiadu gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Bydd BGC Caerdydd yn ystyried Datganiad Caethwasiaeth Fodern Caerdydd ym mis Gorffennaf 2019.
Cefnogi Partneriaeth Bwyd dinas-eang i sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at fwyd cynaliadwy, iach a fforddiadwy, gan gynnwys parhau i gyflwyno'r rhaglen gyfoethogi gwyliau ysgol.	Mae **Strategaeth Fwyd Caerdydd** wedi ei datblygu mewn partneriaeth drwy'r fenter Bwyd Caerdydd. Mae oedi wedi bod ar weithredu'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaeth gordewdra Llywodraeth Cymru, 'Pwysau Iach: Cymru Iach' **Cynhaliwyd cynhadledd Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy'r DG** yng Nghaerdydd, gyda 160 o gyfranogwyr o Ddinasoedd Bwyd Cynaliadwy a Rhwydweithiau Iedled y DG. Cynhaliwyd cynhadledd Nerth Bwyd y DG fel digwyddiad dilynol, a oedd yn edrych ar ddulliau i liniaru tlodi bwyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Ymrwymiadau	Diweddariad
Cynnal ymchwil ychwanegol ar sut i **daclo anghydraddoldebau iechyd** yn y ffordd orau a lleihau'r bwlch o ran disgwyliad oes iach.	Mae ymchwil wedi ei chyflwyno i'r BGC yn amlinellu sut Canlyniadau iechyd yn byddai Bwa Deheuol Caerdydd yn cymharu Gydag ardaloedd eraill yng Nghymru pe câi ei ystyried fel Ardal Awdurdod Lleol. Mae gwaith pellach wedi ei gomisiynu i ddadansoddi nifer bach o faterion penodol ac ymyriadau posib.
Gweithio i gefnogi'r gwaith o ddarparu **Strategaeth Weithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd** er mwyn sicrhau bod cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol yn cymryd mwy o ran mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn enwedig yn yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas.	Mae Chwaraeon Met Caerdydd wedi cytuno i arwain ar ddatblygu Strategaeth Chwaraeon sy'n cynnwys rhanddeiliaid presennol a rhai ychwanegol. Bydd y strategaeth hon yn cyd-fynd â gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer 'cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon gydol eu hoes'. Yn cyd-fynd â gwaith lleol ar batrymau bywyd iach, dan arweiniad Tîm Iechyd y Cyhoedd, bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2019/20.

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Gweithio tuag at sicrhau bod gan yr holl aelodau achrediad Cyflog Byw.
Arwain ar ddatblygu a chyflwyno **Cynllun Gweithredu Strategol Pwysau Iach Caerdydd - Symud Mwy, Bwyta'n Iach**
Datblygu hybiau llesiant a chymunedol ymhellach i fod yn gyfrwng i'r gwasanaethau cyhoeddus integredig.
Helpu i hyrwyddo a datblygu ymagweddau at 'Gyfrifoldeb Cymdeithasol', 'Buddion Cymunedol' a 'Chyflogaeth Foesegol' gan gyflawni strategaeth Gaffael Gymdeithasol Caerdydd

Amcan Lles 6

Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hyn

Cyflwyniad

Mae sut mae cymdeithas yn trin pobl wrth iddynt fyd yn hŷn yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hegwyddorion, ac yn anfon neges bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Mae Caerdydd am i'r ddinas fod yn lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl hŷn yn fwy grymusol, yn iach ac hapus, ac yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol sydd wedi'u hintegreiddio ym mhob rhan o fywyd cymunedol.



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio	Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda*		58.8	
Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth**	76.8	78.4	
Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn derbyn gwybodaeth neu gyngor cywir pan oedd ei (h)angen arnynt**	82.5	80.2	
Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn byw yn y cartref iawn iddyn nhw**	89.2	86.2	
Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn unig**	83.5	86.0	
Bodlonrwydd bywyd ymhlith pobl hŷn*	-	79.5	

*Mae'r dull casglu wedi newid o'r data a gyhoeddwyd gan Gaerdydd yn 2018

**Mae gwerth dwy flynedd o ddata wedi ei gynhyrchu ers cyhoeddi Caerdydd yn 2018

Trosolwg o waith y BGC yn 2018-19

Mae'r rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Oedolion wedi arwain at ddatblygu cyfres o brojectau amlasiantaeth llwyddiannus i gefnogi pobl hŷn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi cynnydd yn BGC Caerdydd ac yn BPRh Caerdydd a'r Fro.

Mae cynllun peilot ar gyfer model presennol y **Pwynt Cyswllt Cyntaf i'r Gwasanaethau Oedolion** wedi ei ehangu i alluogi cleifion i gyrchu gwasanaethai Iechyd, cyngor a'r trydydd sector o'r ysbyty, a thrwy hynny alluogi gwell cydlynu rhwng gwasanaethau iechyd sylfaenol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae dadansoddiad cychwynnol o'r project hwn wedi dangos ei fod yn fuddiol gyda rhagolygon hirdymor da. O ganlyniad, mae cynlluniau ar gyfer ei weithredu'n llawn yn 2019/20 wedi cael eu rhoi ar waith. Mae canlyniadau yn dangos bod 99% o gleientiaid yn teimlo eu bod yn gallu byw yn annibynnol yn eu cartrefi gyda chymorth y gwasanaethau byw yn annibynnol.

Yn ystod 2018-19 fe gymeradwyodd Llywodraeth Cymru (LlC) gynigion trawsnewid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro **"Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned"**, gan sicrhau buddsoddiad o £6 miliwn ar gyfer gwasanaethau lles, gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd mewn un rhanbarth er mwyn cynnig gwasanaethau di-dor yn unol â "Cymru Iachach", cynllun iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Lansiodd **Caerdydd sy'n Dda i Ddemensia** yn swyddogol yn 2018 fel cydweithrediad rhwng Cyngor Caerdydd, y Gymdeithas Alzheimer a'r Bwrdd Iechyd, gyda chefnogaeth BGC Caerdydd. Nod y project yw cyflawni ar y weledigaeth a rennir o weithio tuag at ddinas lle bydd pobl y mae demensia wedi effeithio arnynt, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn teimlo bod cefnogaeth ganddynt a'u bod yn byw yn dda â'u diagnosis. Nod Caerdydd sy'n Dda i Ddemensia yw sicrhau bod pobl â demensia yn gallu byw mewn cymunedau sy'n gefnogol o fewn y ddinas a'u helpu nhw i deimlo nad ydynt ar eu pennau eu hunain.

Rhai o'r cyflawniadau allweddol hyd:

- Bellach ceir dros 25,000 o Gyfeillion Dementia ledled Caerdydd sydd wedi cymryd rhan mewn Sesiynau Ymwybyddiaeth Dementia.
- Mae rhaglen o sesiynau Ymwybyddiaeth Cyfeillion Demensia wedi eu cynnal i staff ar draws y sector cyhoeddus.
- Mae caffis demensia wedi eu cynnal mewn Hybiau a Llyfrgelloedd ar draws y ddinas.
- Mae Canolfan Ddydd Grand Avenue wedi agor fel Canolfan Ragoriaeth i gefnogi'r rheiny sy'n byw â demensia.
- Mae llwybr cerdded sy'n addas i bobl â dementia wedi'i greu yn Noc Dwyrain Bute.

Mae'r project **Adre o'r Ysbyty**, a gafodd ei feithrin gan y Bwrdd Rhaglen Gwella Canlyniadau i Oedolion, wedi gwella'r broses o adael yr ysbyty i gleifion sy'n derbyn gwasanaethau yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Mae dull cydweithredol newydd o weithio wedi ei ddatblygu i wella taith y claf a chynyddu'r gweithio integredig rhwng Cyngor Caerdydd a phartneriaid iechyd a thrydydd sector. Ers dechrau'r project, mae'r Tîm Adre o'r Ysbyty wedi cefnogi 166 o gleifion ac wedi sicrhau 265 o ganlyniadau sydd wedi cynorthwyo gadael yr ysbyty neu helpu cleifion i fyw yn annibynnol ar ôl dychwelyd adref.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Adeiladu ar y gwasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r Pwynt Mynediad Unigol, datblygu gwasanaethau digidol ynghyd â digon o bwyntiau mynediad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein hygyrch ar gyfer y rhanbarth, i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.	Cafwyd cynllun peilot i **ehangu'r Pwynt Cyswllt Cyntaf i'r Gwasanaethau Oedolion** i gynnwys pobl sy'n cyrchu gwasanaethau o'r ysbyty. Mae cynlluniau'n barod i'w weithredu'n llawn yn 2019/20. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru (LIC) gynigion trawsnewid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro **"Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned",** gan sicrhau buddsoddiad o £6 miliwn ar gyfer gwasanaethau lles, gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Roedd cynlluniau peilot "Adre o'r Ysbyty" ac "Adre o'r Ysbyty +" yn llwyddiannus. **Penodwyd 'pencampwyr' Taliadau Uniongyrchol.**
Datblygu cymunedau gwydn â **gwasanaethau lleol, rhwydweithiau seilwaith a chymunedol** cryf i ddiwallu anghenion lleol lle mae pobl hŷn yn byw.	**Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd** ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2019. Caiff gweithrediad y strategaeth ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Iechyd, Tai a Gofal Caerdydd a Bro Morgannwg.
Datblygu a darparu ystod o ddewisiadau llety yn y dyfodol i ddiwallu'r galw a **galluogi pobl i aros gartref gyhyd â phosibl.**	**Strategaeth Tai Pobl Hŷn Caerdydd** ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2019. Caiff gweithrediad y strategaeth ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Iechyd, Tai a Gofal Caerdydd a Bro Morgannwg.
Datblygu arferion asesu, diagnosis a chynllunio gofal gwell, yr adeiledir arnynt trwy gydweithredu gwirioneddol â phobl hŷn a'u gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni'r canlyniadau maen nhw'n eu ceisio.	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a fydd yn gyfrifol am gamau gweithredu'r cam hwn yn 2019/20.
Datblygu Caerdydd fel dinas dementia gyfeillgar.	**Agorwyd Gwasanaeth Dydd Integredig ar gyfer Demensia ar Grand Avenue yn Nhrelái** ym mis Mawrth 2019 – project ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae hyfforddiant Cyfeillion Demensia wedi ei gyflwyno ar draws sefydliadau'r BGC.

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Gweithredu Strategaeth Pobl Hŷn Caerdydd
Datblygu ymagwedd bartneriaeth at les, iechyd a gofal y gweithlu.
Diwygio llwybrau ar gyfer **gwasanaethau iechyd meddwl oedolion**, o ddiogelu i ddarpariaeth acíwt.

> “Uchelgais Caerdydd ... lle mae pobl hŷn yn fwy grymusol, yn iach ac hapus”

Caerdydd Dementia Gyfeillgar

Dementia Friendly Cardiff

Amcan Lles 7

Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflwyniad

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn mynd trwy gyfnod o newid cyflym. Dros y blynyddoedd nesaf bydd angen iddynt barhau i addasu mewn ymateb i'r twf cyflym mewn poblogaeth, disgwyliadau newidiol dinasyddion, canlyniadau tlodi a chyfyngiadau adnoddau sylweddol a pharhaus.

Ni all unrhyw wasanaeth unigol ddiwallu'r heriau y mae'n eu hwynebu ar ei ben ei hun. Bydd angen dulliau newydd, integredig o ddarparu gwasanaeth, a nodweddir gan ysgogiad i ddadansoddi ac ail-siapio ffiniau sefydliadol, systemau a diwylliannau o amgylch anghenion y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth a'u cymunedau. Mae gan ddarparwyr gwasanaeth yng Nghaerdydd hanes o weithio ynghyd, ond mae angen i hyn gynyddu eto i greu diwylliant o wasanaeth cyhoeddus ag un diben – i ddarparu ar gyfer pobl Caerdydd.



Mesur Cynnydd:

Dangosydd canlyniad lefel dinas mae PSB yn ceisio effeithio	Caerdydd yn 2018	Caerdydd yn 2019	
I ba raddau rydych chi'n cytuno bod ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gyffredinol dda?	65.5	71.9	

Trosolwg o waith y BGC yn 2018-19

Trwy'r rhaglen **Rheoli Asedau Partneriaeth**, mae partneriaid y BGC yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu'r asedau presennol (adeiladau a thiroedd) ac i ddylunio manylebau'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Wrth wraidd y gwaith hwn mae ymdrecvh i wneud mwy o arbedion gweithredol trwy leihau costau, law yn llaw ag alinio cynllunio asedau a chynllunio gwasanaethau, a hynny'n benodol trwy ddatblygu'r Hybiau Cymunedol a Lles sy'n dod ag amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd o dan un to.

Bydd Hybiau Cymunedol a Lles hefyd wrth wraidd ymagwedd newydd y ddinas at **weithio'n lleol a chynnwys y gymuned.** Bydd swyddogion cynhwysiant newydd yn gweithio yn yr hybiau newydd gyda'r tîm 'cydlynu a chynnwys y gymuned' newydd ei greu yng Nghyngor Caerdydd i gydlynu gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau'n well, a chynyddu cyfranogiad grwpiau 'nas clywir yn aml' mewn trafodaethau cyhoeddus nac yn ystod prosesau penderfynu.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn gweithio i ddatblygu ei weledigaeth i ddod yn **'Ddinas Glyfar'** – lle cydweithredol â gwell cysylltiadau rhwng pobl a lle mae'r defnydd ar dechnolegau digidol a data wedi ei blethu'n ddi-dor i weithgareddau beunyddiol er mwyn helpu'r ddinas i fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol, economaidd, iechyd ac amgylcheddol y gall fod yn eu hwynebu ac i atal y rhain.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar gyfer Caerdydd:

Ymrwymiadau	Diweddariad
Mabwysiadu dull gwasanaethau traws-gyhoeddus o ran rheoli eiddo ac asedau cyhoeddus.	Yn rhan o Adolygiad Gwneud Asedau i Weithio (MAWR) Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru, mae Gweithgor Asedau Cenedlaethol Is-ranbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cynnal **adolygiad o asedau i nodi cyfleoedd am ddarparu gwasanaeth partneriaeth newydd.** Mae aelodau'r gweithgor asedau'n cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ystadau Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru.
Datblygu gweithlu **gwasanaeth cyhoeddus y ddinas a sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol i fodloni anghenion** a gofynion newidiol.	Mae cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer **hyfforddiant ar arweinyddiaeth** ar y cyd ar draws sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector.
Datblygu dull cydunol o ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a fydd yn gyfrifol am gamau gweithredu'r cam hwn yn 2019/20.
Ceisio cyflenwi **gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector a gweithlu sy'n gynrychioliadol o'r ddinas a'i chymunedau, yn enwedig cymunedau pobl Ddu**, Asiaidd a lleiafrifoedd Ethnig.	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a fydd yn gyfrifol am ystyriodd gweithredu'r cam hwn yn 2019/20.

> "Cydweithio ... er mwyn creu diwylliant un gwasanaeth cyhoeddus gydag un diben"

Blaenoriaethau 2019/20

Bydd y BGC yn:
Uwch-gynllunio cymunedau newydd ac **adolygu asedau/tir gwasanaethau cyhoeddus**
BGC i gyfrannu **at ddatblygu ymagweddau Dinas Glyfar** ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith y ddinas wedi'i alinio â'r Strategaeth Dinas Glyfar.
Y BGC i ystyried **cydlyniant a chynnwys y gymuned**, yn enwedig gwaith i gynyddu cyfranogiad gan grwpiau 'nas clywir yn aml' ganddynt.
Y BGC i bwrw ymlaen cynigion ar gyfer **Cydweithrediad yn y Sector Cyhoeddus.**